# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYSAG**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD MERCHER, 11EG CHWEFROR, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Jasmine Jones**

**01286 679667**

**jasminejones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 3 Chwefror 2026)

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (5)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Menna Baines | Meryl Roberts | Paul John Rowlinson |
| Jina Gwyrfai | Elin Walker Jones | |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anne Lloyd-Jones | John Pughe Roberts |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor –

### Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol

| | |
|---|---|
| Natham Abrams | Iddewiaeth |
| Jean Owen | Ffydd Bahá'í |
| Mr Mohamed Arabi | Islam |
| Eurfryn Davies | Undeb Bedyddwyr Cymru |
| Bethan Davies Jones | Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg |
| Edward Parri-Jones | Dyneiddwyr Eryri |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |
| Dr Sibani Roy | Hindwaeth |
| Rev. Nick Sissons | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Patrycja Bielak Smith | Bwdhaeth |
| Gwawr Maelor Williams | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| Joanna Thomas | Yr Eglwys yng Nghymru |

### Athrawon

| | |
|---|---|
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Heledd Jones | NEU |
| Emma Roberts | UCAC |
| Vacant Seat - NAHT | NAHT |

### Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Eleri Moss | Penaethiaid Uwchradd |

## Ymgynghorydd Annibynnol

Philip Lord

# R H A G L E N

**1. <u>GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL</u>**

**2. <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**3. <u>DATGAN BUDDIANT PERSONOL</u>**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. <u>MATERION BRYS</u>**

I nodi unrhyw fater brys yn ôl barn y Cadeirydd i'w ystyried.

**5. <u>COFNODION</u>** 5 - 9

Y Cadeirydd i gynnig bod cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2025 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir.

**6. <u>MATERION YN CODI</u>**

- Cynllun Datblygu CYS(AG) Gwynedd
- Esiamplau o Bolisïau i'w rhannu gydag ysgolion
- Esiamplau o gwestiynau i werthuso CGM (Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg) ac Addoli ar y Cyd

**7. <u>DYNEIDDIAETH - MANTEISION CYNNWYS ARGYOEDDIADAU ATHRONYDDOL ANGREFYDDOL YNG NGHWRICWLWM CGM</u>**

I dderbyn cyflwyniad gan Luke Donnellan, Cyfarwyddwr Deall Dyneiddiaeth, Dyneiddwyr y DU.

**8. <u>CYNLLUN DATBLYGU CYSAG 2025-26</u>** 10 - 17

I gytuno ar flaenoriaethau gwaith parhaus CYS(AG) ar gyfer y flwyddyn academaidd.

**9. <u>RHEOLI'R HAWL I DYNNU'N ÔL O CGM</u>** 18 - 20

Bydd CYS(AG) yn trafod ac yn cytuno ar y gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion i reoli'r newid deddfwriaethol hwn yn effeithiol.

**10. <u>CCYSAGAUC</u>** 21 - 28

- I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein ar 2 Gorffennaf 2025.
- I gytuno ar bresenoldeb yng nghyfarfod nesaf CCYSAGauC – 19 Mawrth 2026 (Rhithiol).

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL

## 18/11/2025

**Presenoldeb :**

**Y Cynghorwyr :** Menna Baines, Meryl Roberts, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson, Anne Lloyd-Jones, Elin Walker Jones a Jina Gwyrfai.

**Eraill:**

**Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol :** Eirian Bradley-Roberts (Yr Eglwys Gatholig)

**Athrawon :** Eleri Moss (Penaethiaid Uwchradd)

**Swyddogion :** Buddug Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Menna Baines.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg)
- Nick Sissons (Yr Eglwys Fethodistaidd)
- Joanna Thomas (Yr Eglwys yng Nghymru)
- Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru)
- Bethan Davies Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)
- Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg)
- Gwawr Maelor Williams (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2025 fel cofnodion cywir.

**6. MATERION YN CODI**

Dim i'w nodi.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG GWYNEDD 2024-25**

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad blynyddol 2024-25.**

**8. CYNLLUN DATBLYGU POSIBL CYSAG 2025-26**

Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol), gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Awgrymwyd y dylai CYSAG greu cynllun datblygu gyda thua tri amcan i gefnogi ei waith ac er mwyn gallu adrodd ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn yr amcanion hynny.
- Awgrymwyd blaenoriaethu'r tri amcan canlynol: datblygu effeithiolrwydd CYSAG a hyrwyddo CYSAG o fewn ysgolion; monitro a chefnogi darpariaeth AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ysgolion yr Awdurdod Lleol; a monitro a chefnogi darpariaeth addoli ar y cyd a'r datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod.
- Awgrymwyd creu cylchlythyr i'w anfon i ysgolion i hyrwyddo elfennau megis y rhestr chwarae CGM gan Lywodraeth Cymru, EFTRE a CCYSAGAUC.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd cael deialog gyda ysgolion er mwyn sicrhau bod CYSAG yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o fewn ysgolion y sir, a bod ysgolion yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei drafod mewn cyfarfodydd CYSAG.
- Pwysleisiwyd bod pryder ynglŷn â'r capasiti i gyflawni popeth a awgrymwyd, ond bod angen parhau'n uchelgeisiol.

Diolchwyd am y cyflwyniad.

Nodwyd bod yr awgrym o greu cylchlythyr i'w rannu ymysg ysgolion yn un buddiol. Awgrymwyd darparu cylchlythyr yn dilyn pob cyfarfod CYSAG er mwyn codi ymwybyddiaeth ysgolion o'r hyn sy'n cael ei gyflwyno a'i drafod o fewn y cyfarfod. Nodwyd y byddai modd cynnwys dolenni o fewn y cylchlythyr i ddeunyddiau addysgu a amlygwyd o fewn y trafodaethau. Pwysleisiodd y pwyllgor bwysigrwydd sicrhau bod y cylchlythyr mewn fformat sy'n addas ar gyfer cynulleidfa ysgolion.

Mynegwyd barn bod y cyswllt rhwng CYSAG ac ysgolion wedi gwanhau, ac felly croesawyd unrhyw ddull o gryfhau'r cyswllt hwn yn y dyfodol. Nodwyd nad oedd y pwyllgor yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o fewn ysgolion gan nad oedd adroddiadau hunanasesu ysgolion wedi'u derbyn. Cwestiynwyd a oedd modd derbyn yr adroddiadau hunanasesu hyn, a chwestiynwyd ymhellach a oedd modd creu cyswllt drwy ymweld ag ysgolion. Pwysleisiodd y pwyllgor bwysigrwydd deall beth fyddai'n fuddiol i ysgolion er mwyn blaenoriaethu gwaith y pwyllgor wrth symud ymlaen.

Nodwyd bod un llywodraethwr o fewn Ysgol Dyffryn Ogwen yn cymryd cyfrifoldeb dros edrych ar un pwnc, ac os oedd hyn yn arfer cyffredin ym mhob ysgol uwchradd, awgrymwyd creu cyswllt er mwyn anfon adnoddau atynt a derbyn adroddiad blynyddol ganddynt. Cytunwyd â'r awgrym hwn, gan nodi pwysigrwydd peidio ag anghofio ysgolion cynradd o fewn y broses. Pwysleisiwyd nad oedd yn realistig derbyn adroddiad gan bob ysgol, ond y byddai modd derbyn adroddiadau gan ddigon o ysgolion i roi darlun realistig o'r hyn sy'n digwydd yn ysgolion y sir.

Nododd yr Ymgynghorydd Annibynnol fod rhestr o gwestiynau ar gael i lywodraethwyr eu defnyddio wrth holi athrawon o fewn ysgolion. Awgrymwyd dosbarthu'r rhestr hon i aelodau'r pwyllgor er mwyn i lywodraethwyr ei defnyddio ac adrodd yn ôl ar y canfyddiadau. Awgrymwyd hefyd y gallai aelodau'r pwyllgor sydd hefyd yn llywodraethwyr dreialu'r drefn newydd a awgrymwyd. Nodwyd ymhellach y byddai'n bosibl creu adroddiad o'r ymatebion i'r cwestiynau i'w gyflwyno i gyfarfodydd CYSAG drwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial.

Cytunwyd bod creu cyswllt drwy lywodraethwyr yn un o'r ffyrdd gorau ymlaen gan fod penaethiaid ysgolion yn aml yn cael eu llethu gan negeseuon. Cwestiynwyd a oedd adroddiadau blynyddol CYSAG yn cael eu hanfon ymlaen i ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd bod adroddiadau blynyddol CYSAG yn cael eu hanfon i ysgolion y sir.

Awgrymwyd rhoi gwahoddiad i bob cynghorydd sydd hefyd yn llywodraethwr i dderbyn y cwestiynau er mwyn eu gofyn yn eu hysgolion hwy, ac i adrodd yn ôl ar y canlyniadau mewn cyfarfod yn y dyfodol. Nodwyd bod ffurflen swyddogol gyda chwestiynau i ysgolion eisoes yn bodoli o fewn yr Adran Addysg, ac y gallai fod yn bosibl ei haddasu at y diben hwn.

O ran addoli ar y cyd, nodwyd bod sawl cwestiwn wedi'u llunio i holi ysgolion ynglŷn â'r ddarpariaeth, a bod modd rhannu'r rhain gyda'r aelodau a'r llywodraethwyr. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gofyn y cwestiynau cywir i'r bobl briodol o fewn yr ysgolion. Awgrymwyd adrodd ar gasgliadau'r pwyllgor ynglŷn â hyn mewn cyfarfod yn yr haf. Cwestiynwyd a oedd modd cael gwahoddiad i fynychu addoli ar y cyd o fewn ysgolion.

Awgrymwyd sawl syniad pellach i godi ymwybyddiaeth ysgolion ac athrawon o waith CYSAG a'r adnoddau sydd ar gael iddynt:

- creu catalog o adnoddau sydd ar gael a rhoi dolen iddo ar dudalen flaen adroddiad blynyddol CYSAG;
- cynnwys adran fer ar dudalen flaen adroddiad blynyddol CYSAG yn egluro beth yw gwaith CYSAG;
- gofyn i Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg, gynnwys dolenni at adnoddau CGM o fewn ei e-bost wythnosol i athrawon;
- creu adran CYSAG ar fewnrwyd athrawon a staff ysgol gyda dolenni at yr adnoddau sydd ar gael.

Cytunwyd y byddai angen cynnal trafodaethau pellach ynglŷn â sawl un o'r awgrymiadau er mwyn dod i gasgliad ar eu hymarferoldeb.

### 9. CYFARWYDDWR ADDYSG NEWYDD ESGOBAETH BANGOR

Penderfynwyd gohirio'r eitem i'r cyfarfod nesaf.

### 10. RHESTR CHWARAE CGM LLYWODRAETH Cymru

Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol), gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod Llywodraeth Cymru wedi'u comisiynu drwy CCYSAGAUC i gefnogi ysgolion gyda'r trosglwyddiad i'r cwricwlwm newydd.
- Bod yr adnoddau yn amlygu'r gwahaniaethau rhwng CGM ac Addysg Grefyddol.
- Bod chwe modiwl o fewn yr adnodd, sef: Blynyddoedd Cynnar, Ysgolion Cynradd, Ysgolion Uwchradd, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Penaethiaid a Llywodraethwyr.
- Bod y chweched modiwl yn newydd ac ar gael yn benodol ar gyfer llywodraethwyr.

- Bod esiamplau cryf ar gael ynglŷn â sut i ddefnyddio'r wybodaeth sydd o fewn yr adnoddau yn yr ystafell ddosbarth.
- Bod y modiwl ar gyfer penaethiaid yn cynnwys rhestr sy'n amlygu goblygiadau'r newidiadau yn y cwricwlwm iddynt, yn enwedig ynglŷn â'r ffaith nad oes gan rieni bellach hawl i dynnu eu plentyn yn ôl o ddysgu CGM.
- Bod goblygiadau'r newidiadau yn y cwricwlwm ar staffio hefyd wedi'u hamlygu, gan nad oes gan athrawon bellach yr hawl i dynnu eu hunain yn ôl o addysgu CGM.
- Bod elfennau ymarferol o fewn pob modiwl.
- Awgrymwyd rhoi cyflwyniad byr o tua 10 munud ar y rhestr chwarae mewn cyfarfodydd llywodraethwyr er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o'r adnodd sydd ar gael.

Diolchwyd am y cyflwyniad, gan nodi bod yr adnodd yn un gwerthfawr i ysgolion y sir.

**11. POLISIAU ENGHREIFFTIOL CGM AC ADDOLI AR Y CYD**

Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol), gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod ysgolion yn mynegi pryder ynghylch rhieni sy'n dymuno tynnu eu plant yn ôl o wersi CGM am nad ydynt yn dymuno i'w plant ddysgu am wahanol grefyddau.
- Bod cael polisi yn ddefnyddiol yn yr achosion hynny lle mae rhieni yn mynnu tynnu eu plant yn ôl o wersi CGM, gan fod y polisi yn esbonio bwriadau ac amcanion gwersi CGM, megis meithrin dealltwriaeth, goddefgarwch ac amlygu'r amrywiaeth eang o grefyddau sy'n bodoli yng Nghymru.
- Bod polisi o'r fath yn cynnig gwarchodaeth i ysgolion.
- Bod y polisi addoli ar y cyd yn rhoi sylfaen i ysgolion a rhieni gynnal trafodaethau ynghylch amcanion addoli ar y cyd.
- Bod y polisi addoli ar y cyd yn benodol ar gyfer ysgolion sirol.
- Bod diffiniad o addoli ar y cyd wedi'i gynnwys yn y polisi drafft, sef: "Amser i gorff yr ysgol (yn ei gyfanrwydd neu mewn grwpiau llai) gwrdd a myfyrio ar y gwerthoedd y mae'r ysgol yn eu hystyried yn bwysig. Bydd llawer o'r gwerthoedd hyn yn seiliedig ar y traddodiad Cristnogol (ond nid hynny'n unig)."
- Bod y polisi addoli ar y cyd yn eithaf cynhwysfawr, a'r polisi CGM yn fwy sylfaenol.
- Bod rhestr o gwestiynau gwerthuso ar gael i'w cynnwys fel atodiad i'r polisi addoli ar y cyd, pe dymunid.

Diolchwyd am y cyflwyniad.

Nodwyd bod mewnrwyd yr ysgolion yn cael ei defnyddio i ledaenu templedi polisïau. Nodwyd bod polisi addoli ar y cyd y sir bellach wedi dyddio, a'i fod wedi'i gydnabod fel polisi sydd angen ei ddiweddaru. Mynegwyd y farn y byddai creu polisi addoli ar y cyd newydd o fudd i ysgolion. Nodwyd y byddai'r cam nesaf, pe bai'r pwyllgor yn cymeradwyo'r cais, yn rhannu'r polisi'n fewnol o fewn yr adran er mwyn sicrhau cytundeb y gellid ei rannu gyda'r ysgolion fel templed swyddogol yr awdurdod.

Mynegwyd cefnogaeth i'r ddau bolisi gael eu defnyddio fel templedi swyddogol yr awdurdod. Pwysleisiwyd bod y polisi CGM yn esbonio i rieni pam nad oes ganddynt bellach yr hawl i dynnu eu plant yn ôl o ddysgu CGM, a manteision y cwricwlwm newydd i'w plant. Mynegwyd y farn y byddai'r polisïau hyn yn arf pwysig i ysgolion wrth symud ymlaen.

Cytunwyd gan y pwyllgor i ail-ymweld â'r eitem yn y cyfarfod nesaf er mwyn ei chymeradwyo.

**12. CYNHADLEDD EFTRE (FFORWM EWROPEAIDD O ATHRAWON ADDYSG GREFYDDOL) 2025**

Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol), gan adrodd ar ei brofiad yng Nghynhadledd EFTRE 2025. Yn ystod y trafodaethau, tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod Addysg Grefyddol yn tueddu i fod yn gyffesol yn y mwyafrif o wledydd Ewrop.
- Hyd yn oed mewn gwlad fel yr Almaen, bod gan yr eglwys bresenoldeb sylfaenol o fewn Addysg Grefyddol i'r mwyafrif o ddysgwyr, yn dibynnu ar yr ardal benodol.
- Bod gwledydd Sgandinafaidd yn fwy tebyg i Gymru o ran eu darpariaeth Addysg Grefyddol na gweddill Ewrop, ond gyda phwyslais mwy ar wybodaeth yn hytrach na thrafodaeth.
- Bod 60 o gynrychiolwyr wedi mynychu'r gynhadledd yn Hwngari o bob rhan o Ewrop.
- Bod y cyflwyniad cyntaf a fynychwyd yn canolbwyntio ar y pwnc holi, gan annog athrawon i hyrwyddo mwy o holi o fewn gwersi.
- Bod yr ail gyflwyniad yn canolbwyntio ar gwestiynau dirfodol, gan bwysleisio bod plant wedi colli rhywfaint o'r eirfa i drafod materion dirfodol megis rhyfel a'r pandemig, gan bod llai o holi cwestiynau o'r fath o fewn cymdeithas.
- Bod y trydydd cyflwyniad yn ymwneud â'r berthynas rhwng Iddewiaeth ac Islam.
- Bod bid wedi'i gyflwyno i gynnal Cynhadledd EFTRE 2026 yng Nghaerdydd.

**13. CCYSAGAUC**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2025.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.40 y.p. a daeth i ben am 5:15 y.p.

____________________________________

**CADEIRYDD**

**CYSAG Gwynedd – Cynllun Datblygu (2025-26)**

**Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (ar Addysg Grefyddol):**

Prif rolau CYS(AG) yw:

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd, neu Ddatblygiad
- Ysbrydol a Moesol.
- Ystyried ceisiadau gan Benaethiaid i gael rhyddhau eu hysgol o'r gofyniad statudol sy'n nodi bod rhaid i'w sesiynau Addoli ar y Cyd fod yn gyfan
- gwbl neu'n bennaf o natur gyffredinol Gristnogol (gelwir y fath geisiadau'n 'Ddyfarniadau').
- Gofyn i Awdurdod Lleol adolygu ei Faes Llafur Cytunedig.
- Monitro a chefnogi darpariaeth AG, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn
- ysgolion yr Awdurdod Lleol.
- Rhoi cyngor ar y maes llafur AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cytunwyd arno gydag athrawon, gan gynnwys y dewis o ddeunyddiau
- athrawon.
- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar ddarparu hyfforddiant i athrawon (mewn AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg).
- Ystyried cwynion am ddarpariaeth AG, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd a wneir i'r Awdurdod Lleol.
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith.

**Cyfansoddiad y CYS(AG):**

Mae gofynion statudol sefydlu CYS(AG) yn gofyn am lunio tri phwyllgor o aelodau:

- Grŵp A - Cynrychiolwyr byd-olygon crefyddol ac anghrefyddol
- Grŵp B - Cynrychiolwyr yr athrawon
- Grŵp C - Cynrychiolwyr y Cyngor Sir
- Mae hawl hefyd i gyfethol aelodau.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26**

Blaenoriaeth 1: Datblygu effeithiolrwydd CYS(AG)

Blaenoriaeth 2: Monitro a chefnogi darpariaeth AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ysgolion yr Awdurdod Lleol

Blaenoriaeth 3: Monitro a chefnogi darpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol

***Gwynedd SAC(RE) – Development Plan (2025-26)***

***The Role of the Standing Advisory Council (for Religious Education):***

*The principal roles of SAC(RE) are:*

- *Advising the Local Authority on matters to do with Religious Education, Religion, Values and Ethics and collective worship, or Spiritual and Moral Development.*
- *Consider applications from Headteachers that their school be released from the statutory requirements for Collective Worship to be wholly or mainly of a broadly Christian character (such applications are known as 'Determinations').*
- *Require a Local Authority to review its Agreed Syllabus.*
- *Monitor and support the provision of RE, RVE, collective worship and spiritual, moral, social and cultural development in the schools of the Local Authority.*
- *Give advice on teacher agreed syllabus RE and RVE including the choice of teacher materials.*
- *Advising the Local Authority on the provision of training for teachers (in RE and RVE).*
- *Considering complaints about the provision and delivery of RE, RVE and collective worship made to the Local Authority.*
- *To publish an Annual Report on its work.*

***The Composition of SAC(RE):***

*The statutory requirements for the setting up of SAC(RE)s require three committees of members:*

- *Group A - Representatives of religious and non-religious worldviews.*
- *Group B - Teacher representatives.*
- *Group C - County Council representatives.*
- *There is also the right to co-opt members.*

***Priorities for 2025-26***

*Priority 1:* *To develop the effectiveness of SAC(RE)*

*Priority 2:* *Monitor and support the provision of RE, RVE, in the schools of the Local Authority.*

*Priority 3:* *Monitor and support the provision of collective worship and spiritual, moral, social and cultural development in the schools of the Local Authority.*

**Blaenoriaeth 1: Datblygu effeithiolrwydd CYS(AG)/**
***Priority 1: To develop the effectiveness of SAC(RE)***

**Rheswm am y Flaenoriaeth/*Reason for Priority***

- Mae CYS(AG) Gwynedd yn cynnig cymorth i ysgolion, ond faint mae'r ysgolion yn gwybod am ein gwaith? Sut wyddom ni hyn?
- *Gwynedd SAC(RE) provide support for schools, but how much do schools know about our work? How do we know?*

**Meysydd i'w Datblygu/*Areas to Develop***

1) Sicrhau aelodaeth lawn ar dri phwyllgor CYS(AG).
2) 2) Codi proffil CYS(AG) yn yr Awdurdod Lleol.

*1) To ensure a full complement of members on all three SAC(RE) Committees.*
*2) To raise the profile of SAC(RE) amongst the Local Authority*

| Gweithgaredd<br><br>Activity | Unigolyn Arweiniol<br><br>Lead person | Amserlen<br><br>Timescale | Datblygu staff<br><br>Staff development | Monitro<br><br>Monitoring | Meini Prawf Llwyddiant<br><br>Success Criteria | Dyddiad Cwblhau Date Completed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Specific Action to be taken Camau penodol i'w cymryd** | **Who takes responsibility?** | **Start date?** | **Support needed?** | **Who will check on progress and when?** | **What will have improved? How will this impact pupils/Schools/LA?** | |
| • Gwybodaeth am y CYS(AG) i'w chynnwys yn yr adroddiad blynyddol.<br><br>• Information about the CYS(AG) to be included in the annual report. | PL | Tymor yr Hydref<br><br>Autumn Term | ALl i gyfieithu, cyhoeddi a llwytho i fyny i bwynt rhannu.<br><br>LA to translate, publish and upload to share point. | Bydd yr holl gynnydd yn cael ei adrodd yng Nghyfarfod Gwanwyn CYS(AG)<br><br>All progress will be reported in the CYS(AG) Spring Meeting | Bydd ysgolion a sefydliadau partner yn fwy ymwybodol o waith CYS(AG)<br><br>Schools and partner organisations will be more aware of the work of CYS(AG) | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Dolenni i ddeunydd ategol i'w gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol<br><br>• Links to support material to be included in the Annual Report | PL | Tymor yr Hydref<br><br>Autumn Term | ALl i gyfieithu, cyhoeddi a llwytho i fyny i bwynt rhannu.<br><br>LA to translate, publish and upload to share point. | Gweler uchod<br><br>See above | Gweler uchod<br><br>See above | |
| • Adroddiad blynyddol a Deunyddiau eraill i'w ddosbarthu neu ei wneud yn hygyrch i ysgolion (e.e. gan ddefnyddio SharePoint)<br><br>• Annual report and other material to be distributed or made accessible for schools (e.g. using SharePoint) | LA | Tymor yr Hydref<br><br>Autumn Term | ALl i hyrwyddo'r deunyddiau<br><br>LA to promote the materials on SharePoint. | Gweler uchod<br><br>See above | Gweler uchod<br><br>See above | |
| • Aelodau CYS(AG) i fod yn rhagweithiol i rannu cofnodion ac adroddiad blynyddol gyda'u priod sefydliadau.<br><br>• CYS(AG) members to be proactive to share minutes and Annual report with their respective organisations. | Pob aelod<br><br>All Members | Tymhorol<br><br>Termly | Mae aelodau unigol CYS(AG) yn cael mynediad i'w sefydliadau unigol eu hunain.<br><br>Individual CYS(AG) members access to their own individual organisations. | Gweler uchod<br><br>See above | Gweler uchod<br><br>See above | |

**Blaenoriaeth 2: Monitro a chefnogi darpariaeth AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ysgolion yr Awdurdod Lleol**
***Priority 2: Monitor and support the provision of RE, RVE, in the schools of the Local Authority.***

**Rheswm am y Flaenoriaeth/*Reason for Priority***

- Gweler 'Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (ar Addysg Grefyddol)'.
- Helpu ysgolion i fodloni gofynion statudol.
- *See 'The Role of the Standing Advisory Council (for Religious Education)'.*
- *To support schools to meet statutory requirements*

**Areas to Develop**

1) Cael dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ysgolion o ofynion Cwricwlwm Cytûn Gwynedd.
2) Cynorthwyo ysgolion i wella eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
3) Cefnogi ysgolion wrth iddynt werthuso eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg eu hunain.

*1) Gain an understanding of schools' awareness of the requirements of the Gwynedd Agreed Syllabus.*
*2) To help schools improve their RVE provision.*
*3) To support schools as they evaluate their own RVE provision.*

| **Gweithgaredd**<br><br>**Activity** | **Unigolyn Arweiniol**<br><br>**Lead person** | **Amserlen**<br><br>**Timescale** | **Datblygu staff**<br><br>**Staff development** | **Monitro**<br><br>**Monitoring** | **Meini Prawf Llwyddiant**<br><br>**Success Criteria** | **Dyddiad Cwblhau**<br><br>**Date Completed** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Specific Action to be taken Camau penodol i'w cymryd** | **Who takes responsibility** | **Start Date?** | **Support needed?** | **Who will check on progress and when?** | **What will have improved? How will this impact pupils/Schools/LA?** | |
| • Deunyddiau i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno CGM i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol. | PL | Tymor yr Hydref | ALl i gyfieithu, cyhoeddi a llwytho i fyny i Sharepoint | Bydd yr holl gynnydd yn cael ei adrodd yng Nghyfarfod Gwanwyn CYS(AG) | Ysgolion i gael mynediad at ddeunyddiau cefnogi CGM. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ● Materials to support the planning and delivery of RVE to be included in the Annual report. | | Autumn Term | LA to translate, publish and upload to share point. | All progress will be reported in the CYS(AG) Spring Meeting | Schools to be able to access RVE support material. | |
| ● Deunyddiau Monitro ar gyfer llywodraethwyr ac athrawon i'w darparu ar gyfer ysgolion. Cynnwys cwestiynau monitro ac enghraifft o bolisi CGM.<br><br>● Monitoring Materials for governors and teachers to be made available for schools. To include monitoring questions and example RVE policy. | PL | Tymor yr Hydref<br><br>Autumn Term | ALl i gyfieithu, cyhoeddi a llwytho i fyny i SharePoint ac ysgolion i fod yn ymwybodol o'r deunyddiau.<br><br>LA to translate, publish and upload to SharePoint and schools to be made aware of the materials. | Bydd yr holl gynnydd yn cael ei adrodd yng Nghyfarfod Gwanwyn CYS(AG)<br><br>All progress will be reported in the CYS(AG) Spring Meeting | Llywodraethwyr ac athrawon i allu monitro RVE yn well yn eu hysgolion eu hunain.<br><br>Governors and teachers to be better able to monitor RVE in their own schools. | |
| ● Cynghorwyr ac aelodau CYS(AG) sy'n llywodraethwyr ysgol i dreialu'r cwestiynau ac adrodd yn ôl i CYS(AG).<br><br>● Cllrs and CYS(AG) members who are school governors to trial the questions and report back to CYS(AG). | Cynghorwyr ac Aelodau sydd ar gyrff llywodraethu<br><br>Cllrs and Members that are on governing bodies | Tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf<br><br>Spring and Summer terms | Deunyddiau uchod i'w rhannu gydag aelodau CYS(AG).<br><br>Above materials to be shared with CYS(AG) members. | Canlyniad ymweliadau aelodau i'w rhannu yn Nhymor yr Haf.<br><br>Outcome of members' visits to be shared in Summer Term. | CYS(AG) i fod yn fwy gwybodus ynghylch cyflwyno CGM ar draws detholiad o ysgolion ALl.<br><br>CYS(AG) to be better informed as to the delivery of RVE across a selection of the LA schools. | |

**Blaenoriaeth 3: Monitro a chefnogi darpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol**

***Priority 3: Monitor and support the provision of collective worship and spiritual, moral, social and cultural development in the schools of the Local Authority.***

**Rheswm am y Flaenoriaeth/*Reason for Priority***

- Gweler 'Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (ar Addysg Grefyddol)'.
- Mae gofyn i ysgolion ddarparu Gweithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd.
- *See 'The Role of the Standing Advisory Council (for Religious Education)'.*
- *There is a requirement on schools to provide a Daily Act of Collective Worship.*

**Meysydd i'w Datblygu/*Areas to Develop***

1) Cael dealltwriaeth o ymwybyddiaeth yr ysgolion o'r disgwyliadau mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd.
2) Helpu ysgolion i wella eu darpariaeth Addoli ar y Cyd.
3) Helpu ysgolion i werthuso eu darpariaeth Addoli ar y Cyd eu hunain.

*1) Gain an understanding of schools' awareness of the expectations regarding Collective Worship.*
*2) To help schools improve their Collective Worship provision.*
*3) To support schools as they evaluate their own Daily Act of Collective Worship.*

| Gweithgaredd<br><br>Activity | Unigolyn Arweiniol<br><br>Lead person | Amserlen<br>Timescale | Datblygu staff<br><br>Staff development | Monitro<br><br>Monitoring | Meini Prawf Llwyddiant<br><br>Success Criteria | Dyddiad Cwblhau<br>Date Completed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Specific Action to be taken**<br>**Camau penodol i'w cymryd** | **Who takes responsibility?** | **Start date?** | **Support needed?** | **Who will check on progress and when?** | **What will have improved? How will this impact pupils/Schools/LA?** | |
| • Deunyddiau monitro ar gyfer llywodraethwyr ac athrawon i'w darparu ar gyfer ysgolion. I gynnwys cwestiynau monitro a Pholisi addoli ar y Cyd enghreifftiol. | PL | Tymor yr Hydref | ALl i gyfieithu, cyhoeddi a llwytho i fyny i SharePoint ac ysgolion i fod yn ymwybodol o'r deunyddiau. | Bydd yr holl gynnydd yn cael ei adrodd yng Nghyfarfod Gwanwyn CYS(AG) | Llywodraethwyr ac athrawon i allu monitro RVE yn well yn eu hysgolion eu hunain. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Monitoring materials for governors and teachers to be made available for schools. To include monitoring questions and example Collective Worship policy. | | Autumn Term | LA to translate, publish and upload to SharePoint and schools to be made aware of the materials. | All progress will be reported in the CYS(AG) Spring Meeting | Governors and teachers to be better able to monitor RVE in their own schools. | |
| • Cynghorwyr ac aelodau CYS(AG) sy'n llywodraethwyr ysgol i dreialu'r cwestiynau ac adrodd yn ôl i CYS(AG)<br><br>• Cllrs and CYS(AG) members who are school governors to trial the questions and report back to CYS(AG) | Cynghorwyr ac Aelodau sydd ar gyrff llywodraethu<br><br>Cllrs and Members that are on governing bodies | Tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf<br><br>Spring and Summer terms | Deunyddiau uchod i'w rhannu gydag aelodau CYS(AG).<br><br>Above materials to be shared with CYS(AG) members. | Canlyniad ymweliadau aelodau i'w rhannu yn Nhymor yr Haf.<br><br>Outcome of members' visits to be shared in Summer Term. | CYS(AG) i fod yn fwy gwybodus ynghylch cyflwyno CGM ar draws detholiad o ysgolion ALl.<br><br>CYS(AG) to be better informed as to the delivery of RVE across a selection of the LA schools. | |

**Rheoli pryderon rhieni ynghylch CGM**

Mae mynd i'r afael â phryderon rhieni am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn agwedd bwysig ar feithrin amgylchedd ysgol tryloyw a chynhwysol. Rhaid i ysgolion fod yn barod i ymgysylltu'n feddylgar â rhieni, gan sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu rheoli gyda sensitifrwydd a gofal. Mae'r adran hon yn amlinellu camau ymarferol ar gyfer ymateb yn effeithiol i bryderon a godwyd ynghylch darpariaeth CGM, gyda'r nod o adeiladu ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth rhwng ysgolion a theuluoedd.

Rhestr weithredu ar gyfer ysgolion sy'n ymateb i bryderon rhieni am grefyddol, gwerthoedd a moeseg.

1. **Cydnabod a chofnodi'r pryder**
   - Gwrandewch yn ofalus ac yn barchus ar bryder y rhiant.
   - Dogfennwch y pryder yn ysgrifenedig, gan gynnwys dyddiad, amser a manylion y mater a godwyd.
2. **Gofynnwch am gyngor**
   - Os oes angen, gofynnwch am gyngor gan yr ymgynghorydd CGM, Cynghorydd Esgobaethol, CYSAG, awdurdod lleol, consortia rhanbarthol neu swyddog diogelu, yn enwedig os yw'r pryder yn cynyddu neu'n ymwneud â materion cymunedol ehangach.
3. **Ymchwilio i'r pryderon**
   - Gall pryderon fod yn seiliedig ar
     a) Addysgu CGM heb ystyried y maes llafur y cytunwyd arno o ganllawiau CGM Llywodraeth Cymru.
     b) Nad yw'r ddarpariaeth CGM yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn lluosog.
     c) Camddealltwriaeth rhieni ynghylch natur wrthrychol, beirniadol a lluosogaidd CGM.
     d) Rhieni nad ydynt yn ymwybodol nad oes hawl i dynnu'n ôl o CGM.
     e) Barn rhagfarnllyd neu hiliol rhieni.
     f) Arall

Draft

| Os a) neu b) | Os c) neu d) | Os e) |
|---|---|---|
| **Pryder**<br>- A oedd rhywbeth wedi'i ddweud ar ymweliad ysgol â man addoli neu gan ymwelydd y mae'r rhiant yn ei ystyried yn amhriodol? e.e. "dylech chi gredu", "rydyn ni i gyd yn meddwl..." ac ati...<br>- A yw CGM yn cael ei addysgu mewn ffordd wrthrychol, feirniadol a lluosogaidd – osgoi "rydyn ni i gyd yn credu..." neu "fel Cristnogion rydyn ni i gyd...".<br><br>**Gweithred**<br>- Cyflogi gwasanaethau cynghorydd CGM, Cynghorydd Esgobaethol neu gynrychiolydd CYSAG ALl i archwilio’r ddarpariaeth.<br>- Efallai y bydd cynghorydd CGM, Cynghorydd Esgobaethol neu gynrychiolydd CYSAG ALl yn awgrymu nad yw darpariaeth CGM yr ysgol yn ystyried Maes Llafur Cytunedig yr ALl na | **Pryder**<br>- Mae rhiant eisiau arfer eu hawl flaenorol i dynnu eu plentyn o bob un neu agwedd ar CGM.<br>- Nid yw rhiant yn deall natur wrthrychol, beirniadol a lluosogaidd CGM.<br><br>**Gweithred**<br>- Cadarnhau ymrwymiad yr ysgol i gynhwysiant, amrywiaeth, a pharch at draddodiadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.<br>- Rhaid i'r ysgol 'ystyried Maes Llafur Cytunedig yr ALl a chanllawiau CGM Llywodraeth Cymru.<br>- Disgrifir CGM fel Gwrthrychol, Beirniadol a Lluosog.<br>- Ystyriwch rannu manylion y cwricwlwm, polisïau, a rhesymeg dros addysgu am wahanol grefyddau, gan gynnwys crefyddau fel Islam ac Iddewiaeth.<br>**Nodiadau**<br>**a. Lluosogaidd**<br>Rhaid i'r CGM a ddarperir ym mhob ysgol fod yn lluosog. Mae hyn yn golygu bod CGM:<br>• rhaid adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn | **Pryder**<br>- Penderfynwch a yw'r gŵyn/pryder yn seiliedig ar gymhellion hiliol a gweithredu yn unol â hynny. A yw'r pryder yn cynnwys iaith neu ymddygiad a allai fod yn hiliol neu'n wahaniaethol? (e.e. gwrthwynebiadau sy'n targedu'n benodol Islam neu Iddewiaeth), dilyn polisi'r ysgol ar gyfer cofnodi ac ymateb i ddigwyddiadau hiliol.<br><br>**Gweithred**<br>- Cofnodwch y digwyddiad yn ffurfiol gan ddefnyddio system adrodd |

| | | |
|---|---|---|
| chanllawiau CGM Llywodraeth Cymru. Os felly, gan weithio gyda'r ymgynghorydd CGM, yr Esgobaethol neu gynrychiolydd CYSAG ALl CYNLLUNIWCH NEWIDIADAU POSIBL I'R CWRICWLWM, E.E. ADOLYGU POLISI A CHWRICWLWM CGM YR YSGOL ER MWYN EGLURDER A CHYDYMFFURFIAETH. Darparu hyfforddiant i athrawon ar CGM gwrthrychol, beirniadol a lluosog. | Gristnogol yn bennaf tra'n ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru.<br>• hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol hefyd yng Nghymru yn cael eu cynnal.<br>**b. Gwrthrychol a Beirniadol**<br>• Rhaid i ysgolion ddarparu CGM sydd hefyd yn wrthrychol ac yn feirniadol, o ran cynnwys a dull gweithredu. Mae hyn oherwydd bod CGM yn bwnc i bob dysgwr, beth bynnag fo'u credoau personol neu gefndir teuluol. Nid yw CGM yn ei gwneud yn ofynnol nac yn annog dysgwyr i fod yn grefyddol neu'n anghrefyddol, neu i dderbyn safbwynt rhagnodedig, ac mae'n rhaid i bob ysgol gadw at hyn. Mae CGM wedi'i gynllunio'n sensitif a'i gyflwyno gydag uniondeb proffesiynol. | digwyddiadau hiliol yr ysgol, gan nodi natur y pryder ac unrhyw sylwadau cysylltiedig. |

4. **Rhowch wybod i CYSAG (os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes).**
    - Rhowch wybod i'r rhiant y gallent fod am rannu eu pryderon gyda SAC(RE).
    - Rhowch wybod i CYSAG am bryder y rhieni, gellir gwneud hyn trwy'r cynghorydd CGM neu Glerc CYSAG.
5. **Darparu Cymorth**
    - Darparu cymorth i ddisgyblion, staff neu ymwelwyr yr effeithir arnynt fel y bo'n briodol.

| Grŵp | Mathau o gymorth sydd eu hangen |
|---|---|
| Staff | Hyfforddiant, cyngor gan gynghorydd CGM/CYSAG cymorth polisi a chwricwlwm, canllawiau diogelu, cymorth llesiant. |
| Disgyblion | Gofal bugeiliol, eglurder ar bwrpas CGM, dilyniant ar ôl digwyddiadau hiliol |
| Rhieni | Gwybodaeth glir, sicrwydd, eglurder cyfreithiol (dim tynnu'n ôl), deialog barchus, prosesau gwrth-hiliaeth wedi'u hesbonio, llwybrau i CYSAG |
| Ymwelwyr | Eglurder ar bwrpas CGM, dilyniant ar ôl digwyddiadau hiliol |

Draft

Annwyl Riant/Gofalwr,

Rwy'n ysgrifennu i gydnabod eich pryder diweddar ynglŷn â darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn ein hysgol. Rydym yn cymryd yr holl adborth rhieni o ddifrif ac yn gwerthfawrogi eich bod yn cymryd yr amser i rannu eich barn gyda ni.

Byddwch yn sicr bod ein hysgol wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd parchus a chynhwysol i bob disgybl, staff ac ymwelydd. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, rydym yn dilyn y cwricwlwm statudol ar gyfer CGM, sydd wedi'i gynllunio i adlewyrchu ystod eang o gredoau a gwerthoedd yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Mae ein cwricwlwm CGM wedi'i gynllunio'n ofalus i gyflwyno golwg gytbwys ac eang ar fyd-olwg grefyddol ac anghrefyddol. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod addysgu yn cael ei gyflwyno mewn ffordd wrthrychol, beirniadol a lluosog. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn cael eu hannog i archwilio gwahanol gredoau a gwerthoedd, datblygu barn wybodus, a chymryd rhan mewn deialog barchus, i gyd mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Credwn fod meithrin sgiliau meddwl beirniadol a hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth yn hanfodol i baratoi ein disgyblion i ffynnu mewn cymdeithas amrywiol. Nid ein nod yw hyrwyddo unrhyw set benodol o gredoau, ond yn hytrach arfogi disgyblion â'r wybodaeth a'r sgiliau i wneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach neu os hoffech drafod ein dull yn fanylach, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth ac yn parhau i fod yn ymroddedig i sicrhau bod pob aelod o'n cymuned ysgol yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cynnwys. Efallai yr hoffech hefyd rannu eich pryderon gyda'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Crefydd (SAC(RE)), sy'n goruchwylio'r ddarpariaeth CGM yn ein hardal.

Diolch unwaith eto am godi eich pryder. Rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu yng nghymuned ein hysgol.

Yn gywir

[Enw]

[Rôl]

[Enw'r Ysgol]

Draft

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru

WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cymdeithas CYSAGau Cymru***
***Cyfarfod Ynys Môn***
***Cyfarfod rhithwir trwy Zoom***
***2 Gorffennaf 2025***
***10.00 yb – 12.20 yp***

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn**<br>Non Dafydd (ND)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Kathy Riddick (KR)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr**<br>Alice Parry (AP)<br>Edward Evans (EE)<br><br>**Caerffili**<br>Eifion ap Llwyd Dafydd (ELD)<br><br>**Caerdydd**<br><br>**Sir Gaerfyrddin**<br>Gaynor Jones-Higgs (GJH)<br><br>**Ceredigion**<br>Rhianydd James (RJ)<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord (PL)<br>Roger Boon (RB) | **Sir Ddinbych**<br>Phil Lord (PL)<br>Collete Owen (CO)<br>Jennie Downes (JD)<br><br>**Sir y Fflint**<br>Vicky Barlow (VB)<br>Trevor Dobson (TB)<br><br>**Gwynedd**<br><br>**Merthyr Tudful**<br>Donna Graves<br><br>**Sir Fynwy**<br>Louise Brown (LB)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot**<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd** | **Powys**<br>John Mitson (JM)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Matthew Maidment (MM)<br><br>**Torfaen**<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Bro Morganwg**<br>Tyler Saunders<br>Marged Williams<br><br>**Wrecsam / *Wrecsam***<br>Tania ap Siôn (TS)<br>Libby Jones (LJ)<br><br><br>Rhys Evans | **PYCCGM**<br>Phil Lord (PL)<br>*Donna Graves (DG)*<br><br>***EFTRE***<br>Phil Lord (PL)<br><br>***Arsylwyr:***<br><br><br>**CBAC**<br>Paul Morgan<br><br>**ESTYN**<br><br>**Llywodraeth Cymru**<br><br>**REC**<br>Kathy Riddick (KR)<br>Libby Jones (LJ)<br><br>**Yr Eglwys yng Nghymru**<br><br>**Gwasanaeth Addysg Gatholig**<br><br>**Cymwysterau Cymru**<br><br>**Rhwydwaith Rhyng-ffydd**<br><br>**ADEW**<br><br>**Siaradwr Gwadd**<br>Jaimie Woodhouse<br><br>**Cofnodion (o'r recordiad)**<br>Jo Nicholls (JNI)<br><br>**Cyfieithydd:**<br>Sioned Jones |

DRAFT

**Cofnodion y cyfarfod**

**1. Cyflwyniad a chroeso**

Croesawodd EE yr aelodau i gyfarfod yr haf a diolchodd i Awdurdod Lleol Ynys Môn a'i CYSAG am gynnal cyfarfod heddiw. Croesawodd EE y Cynghorydd Non Dafydd, Ymgynghorydd a Chadeirydd CYSAG Ynys Môn a roddodd y cyflwyniad canlynol:

Mae'n fraint cynnal cyfarfod CCYSAGauC. Rydym yn dod ynghyd gydag ymrwymiad i feithrin datblygiad Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ysgolion yng Nghymru, gan gydnabod ei rôl sylfaenol wrth feithrin dealltwriaeth o'n pwrpas moesol. Wrth i ni ddechrau ar yr ymdrech hon gyda'n gilydd, gadewch inni gydnabod rôl yr ALlau wrth sicrhau bod y cwricwlwm CGM yn diwallu anghenion amrywiol ein cymunedau a phrofiadau pob disgybl mewn ysgolion.

Mae CGM mewn ysgolion yn garreg filltir i gymdeithas sy'n gynhwysol, trwy ymgysylltu â chwestiynau moesegol anodd, archwilio gwahanol fydolygon a pharchu gwahaniaethau. Mae myfyrwyr yn cael mewnwelediad gwerthfawr i wahanol systemau credoau a gwerthoedd sy'n ffurfio ein byd heddiw. Mae cael gwybodaeth o'r fath yn arwain at ddealltwriaeth sy’n lleihau rhagfarnau ac yn annog deialog ystyrlon rhwng unigolion o wahanol gefndiroedd.

Mae ALlau mewn sefyllfa unigryw i hwyluso'r daith hon, gan bontio rhwng polisi a gweithrediad ymarferol. Mae ein cyfraniadau'n hanfodol i sicrhau bod addysg yn parhau i fod yn ddeinamig ac yn ymateb i'r anghenion sy'n esblygu ar gyfer dysgwyr ac athrawon.

Diolch i chi gyd am eich ymrwymiad i'r daith barhaus hon. Mae eich cyfranogiad yn y cyfarfod hwn yn dangos eich parodrwydd i ystyried datblygiad yr agwedd bwysig hon ar addysg.
Gobeithio y gallwn ni i gyd fanteisio ar y cyfle hwn i rannu syniadau i ysbrydoli camau gweithredu ac i feithrin partneriaethau i gryfhau addysg ledled Cymru.

Gyda'n gilydd gallwn adeiladu dyfodol disgleiriach i'n myfyrwyr yn seiliedig ar werthoedd, parch, dealltwriaeth a chyfrifoldeb.

Diolchodd EE i Non Dafydd.

**2. Myfyrdod tawel**

Arweiniodd EE fyfyrdod ar heddwch a thrugaredd a rhannodd y stori “Dim Mwy na Dim”. Gorffennodd EE gyda gweddi am undod.

**3. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Nia Jenkins (Castell Nedd Port Talbot), y Cynghorydd Rachel Buckler (Sir Fynwy), Christopher Owens (CBAC), Michaela Benjamin (Estyn), Ellen Stock (CLlLC), Emily Lloyd (Yr Eglwys yng Nghymru). Nododd Vicky Barlow y byddai’n rhaid iddi adael yn gynnar.

**4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, Zoom, (6 Mawrth 2025, Pen-y-bont ar Ogwr)**

Adolygwyd y cofnodion a dylid eu diwygio fel a ganlyn:

- Dylid rhestru Andrew Bennett o dan Sir Gaerfyrddin.
- Newid “arbenigwyr AG” i “ymgynghorwyr AG”.
- Newid “addysg rhyw” i “addysg rhywioldeb”.

Cynigiodd RS ac eiliodd VB, gyda'r newidiadau hyn, fod y cofnodion yn cael eu derbyn fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2025.
Bydd EE, y Cadeirydd, yn llofnodi'r cofnodion i nodi mai dyma'r fersiwn derfynol ac yn darparu'r copi wedi'i lofnodi hwn i AP i'w ffeilio.

**5. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf, (6 Mawrth 2025, Pen-y-bont ar Ogwr)**

- Dim materion newydd yn codi y tu allan i agenda'r cyfarfod presennol.

DRAFT

- Soniodd RB nad oedd adroddiad dwyieithog TaS wedi cyrraedd ei CYSAG.
- Cadarnhaodd LJ ei fod wedi'i anfon at bob CYSAG a bydd yn ei ailanfon at RB.

## 6. Cyflwyniad PYCCGM

Diolchodd Jaimie Woodhouse (JW) i CCYSAGauC a PYCCGM am y fraint o gael siarad yn y cyfarfod hwn. Mae JW yn siaradwr ysgol ar Ddyneiddiaeth a Sentientiaeth.
Cyflwynodd JW sleidiau ar Sentientiaeth. Bydd copi o'r cyflwyniad manwl a rannodd JW yn cael ei ddosbarthu i'r CYSAGau ar ôl y cyfarfod hwn. I grynhoi:

- Mae'r gair Sentientiaeth yn fydolwg fodern gyda bydolygon treftadaeth hynafol, sydd ag adleisiau o themâu o'r crefyddau Dharmaidd, y crefyddau Abrahamaidd, Dyneiddiaeth a Feganiaeth fel byd-olwg hefyd. Mae'n fydolwg syml wedi'i chrynhoi fel tystiolaeth, rheswm a thrugaredd at bob bod ymwybodol.
- Mae pobl ifanc yn pryderu am amrywiaeth, gwahaniaethu a hunaniaeth ac yn bryderus iawn am natur, yr amgylchedd a'r hinsawdd, sy'n dod yn fwy o fygythiad gydag effaith deallusrwydd artiffisial a'r goblygiadau i'r technolegau hynny ar y ffordd rydym yn byw ein bywydau. Mae bydolwg teimladwy yn cysylltu ac yn atseinio â llawer o'r themâu gwahanol hynny a dyma'r cyd-destun y mae Sentientiaeth yn perthyn iddo fel byd-olwg anghrefyddol arall.
- Mae'n blatfform athronyddol syml, radical, plwraliaethol
- Cyflwynodd JW syniadau ar sut i addysgu Sentientiaeth mewn CGM a sut mae'n cyd-fynd â'r amcanion ar gyfer CGM fel pwnc. Gellir mynd i'r afael ag ef ar bob lefel, o rai 17/18 oed a myfyrwyr prifysgol i lawr i'r blynyddoedd cynnar.
- Cyflwynodd JW 4 syniad am wers.
- Cynigiodd JW helpu CCYSAauC ymhellach ac mae ei fanylion cyswllt i'w gweld ar y sleidiau.

Diolchodd EE i JW am ei gyflwyniad.

## 7. Materion Llywodraeth Cymru [LlC]

<u>Cyfarfodydd tymhorol arferol gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru (LlC)</u>
Cyfarfu swyddogion CCYSAGauC â chydweithwyr Llywodraeth Cymru, Alison Tom, Lloyd Hopkin a Guy DeLong-Smith ddydd Llun 19eg o Fai. Mae crynodeb o'r cyfarfod fel a ganlyn:

- Trafodaeth ar adroddiadau blynyddol CYSAG a'r niferoedd a dderbyniwyd ar gyfer 2023/24.
  - Rhannodd LlC a CCYSAGauC restr o'r adroddiadau a dderbyniwyd. Dywedodd LlC y byddent yn codi hyn gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) er mwyn eu hatgoffa o'i dyletswyddau cyfreithiol ynghylch Adroddiadau Blynyddol CYSAGau.
  - Cadarnhaodd LlC fod yr adroddiadau'n cael eu ffeilio'n ddiogel, a'u bod yn cael eu darllen a'u hystyried gan gydweithwyr priodol yn Nhîm Addysg Llywodraeth Cymru. Defnyddir yr adroddiadau i lywio sgyrsiau mewnol. Bydd LlC yn ystyried darparu adroddiadau cryno yn y dyfodol.
- Gofynnodd CCYSAGauC 'Sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ddarparu CGM mandadol ym mlwyddyn 10 ac 11 o fis Medi 2025 heb gymhwyster dynodedig yn cael ei gynnig, fel y cwrs byr AG blaenorol?'
  - Ymatebodd y Llywodraeth y dylai'r ALl fod yn rhan o wella ysgolion, ac mae Adnodd bellach wedi'i sefydlu ac yn rhedeg a bydd yn cefnogi datblygu adnoddau. Mae CGM wedi'i nodi fel maes blaenoriaeth.
- Gofynnodd CCYSAGauC 'Os nad yw'r gyfres sgiliau a'r prosiect personol wedi'u cynllunio i fodloni'r gofyniad mandadol ar gyfer CGM yn unig, beth mae LlC yn awgrymu y dylai ysgolion ei wneud, i sicrhau eu bod wedi bodloni'r gofyniad mandadol ar gyfer CGM o 2027?'
  - Soniodd Llywodraeth Cymru y dylai ysgolion osgoi asesu popeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dull mwy cyfannol ym mlwyddyn 10 ac 11. Nid gwybodaeth a sgiliau yn unig sy'n bwysig ond hefyd tueddfryd a gwerthoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ysgolion yn dal i feddwl am gymwysterau ac yn cynnwys pethau ar yr amserlen y mae angen adrodd arnynt ac yn dal i weithio yn ôl y mesurau perfformiad cyfredol hynny, a fydd yn newid.
- Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch a fydd y mesurau perfformiad newydd yn cefnogi'r ddarpariaeth fandadol o CGM, a phryd mae'r ymgynghoriad ar hyn. Dywedodd LH ei fod yn credu ei fod naill ai allan nawr, neu ei fod yn dod yn fuan. LH i adrodd yn ôl i CCYSAGAUC ar hyn.
- Gofynnodd CCYSAGAUC a oedd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch a fydd Cymwysterau Archwilio Bydolygon Agored Cymru ar gael i ysgolion yng Nghymru ar gyfer cofrestru ym mis Medi 2027, oherwydd bod llawer o ysgolion newydd ddechrau'r cymhwyster hwn ym mis Medi 2025.

  - Wedi hynny, mae LlC wedi ein hysbysu bod proses apelio yn digwydd ar gyfer y cymhwyster hwn, gan iddo gael ei benderfynu ym mis Mai gan Gymwysterau Cymru na fyddai Archwilio Bydolygon Agored Cymru yn cael ei ddynodi o fis Medi 2027. Gwneir y penderfyniad terfynol gan Gymwysterau Cymru ddiwedd mis Medi, pan fydd ysgolion yn cael gwybod. Mae CCYSAGauC yn gwybod am nifer o ysgolion sydd wedi ysgrifennu llythyrau at Agored Cymru i gefnogi'r cymhwyster ac mae hynny wedi'i gynnwys yn eu hapêl.
- Trafodwyd y toriadau Addysg Uwch a gofynnodd CCYSAGauC beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r toriadau mewn Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol ym Mhrifysgol Caerdydd, ac effaith diswyddiadau ar y cyrsiau BA Addysg a TAR ym Met Caerdydd, a fydd yn amlwg yn cael effaith uniongyrchol ar arbenigedd mewn CGM a chenedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr.
  - Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oes ganddi unrhyw awdurdod dros brifysgolion nac unrhyw lais mewn penderfyniadau a wneir ynghylch y rhaglenni. Mae LlC wedi datblygu corff dysgu proffesiynol newydd o'r enw Adnodd, sy'n gyfrifol am ddatblygu adnoddau dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr yng Nghymru, a dywedodd LlC eto fod y corff hwn wedi nodi CGM fel maes blaenoriaeth. Mae ganddyn nhw hefyd gorff newydd gan Lywodraeth Cymru o'r enw Medr , sy'n gymysgedd o eiriau Cymraeg am sgil a gallu. Mae'n gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16 yng Nghymru, a ddaeth yn weithredol ym mis Awst 2024.
  - Bydd LlC yn gwneud ymholiadau ynghylch pwy sy'n arwain ar y trosolwg o'r galw am bynciau, y ddarpariaeth a'r dosbarthiad mewn AU yng Nghymru o fewn Medr a bydd yn adrodd yn ôl. Mae'n debyg y bydd y gwaith hwn yn ystyried lle gallai fod angen ymyriadau i sicrhau parhad meysydd pwnc strategol bwysig, ac yn amlwg rydym wedi pwysleisio bod CGM yn un ohonyn nhw.
- Roedd diweddariad hefyd ar y prosiect TG yr oedd CCYSAGAUC yn gweithio arno gyda thîm Kevin Palmer a Max. Cafodd y prosiect hwn ei ohirio oherwydd amgylchiadau annisgwyl. Mae CCYSAGauC wedi cael manylion cyswllt Dirprwy Gyfarwyddwr newydd yr adran Ymarferwyr Ysgol, Chris Warner.
- Yr eitem olaf ar yr agenda oedd goblygiadau'r adolygiad haen ganol ar CYSAGau a CYSau ac ymgynghorwyr CGM, yn enwedig mewn ALlau, nad oes ganddynt ymgynghorydd penodedig ar hyn o bryd, a'r rhai sydd wedi'u tynnu allan o'r gwasanaeth rhanbarthol newydd, sydd bellach wedi'i weithredu ledled Cymru.
  - Dywedodd LlC eu bod yn rhagweld y bydd partneriaethau mwy anffurfiol yn cael eu ffurfio i gefnogi pob agwedd ar y cwricwlwm. Byddai Llywodraeth Cymru yn bryderus pe na bai capasiti ar gyfer cefnogi CGM neu gefnogaeth i'r CYSAGau o fewn pob awdurdod lleol.
- MM: A yw CCYSAGauC wedi cysylltu â Chymwysterau Cymru (CC) a CBAC ynghylch cwrs Agored Cymru? Oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud i geisio cefnogi'r cwrs hwn? Rwy'n ei ddechrau eleni, ac mae'n ymddangos yn ddewis arall da i'r TGAU o ran yr hyblygrwydd a'r cynnwys. Mae ennill cymhwyster yn ddefnyddiol i ysgogi disgyblion.
- LJ: Cyfarfu CCYSAGauC â Chymwysterau Cymru ym mis Ebrill 2025, a bydd RS yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Mae Cymwysterau Cymru yn ei weld fel newid diwylliant i athrawon, ac mae hefyd yn newid diwylliant i ddysgwyr a rhieni i feddwl am ffyrdd newydd o ysgogi dysgwyr heb y cymhwyster hwnnw, sy'n her i ysgolion. Mae CCYSAGauC yn sicr yn ystyried bod cymhwyster yn gymhelliant da i ddysgwyr, ond efallai nid i bob dysgwr.
- RB: Roedd Conwy wedi rhannu pryderon tebyg gyda CC. Rhannodd RB ymateb CC gyda Sam Rowlands, aelod cynulliad lleol Gogledd Cymru, a gafodd gyfarfod â Lynn Neagle yn ei dro. Roedd rhai anghysondebau yn yr adborth gan CC a Lynn Neagle.

**CAM GWEITHREDU:** RB i rannu'r holl ohebiaeth â CCYSAGauC drwy e-bost at LJ.

Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet Lynne Neagle

Adroddodd EE y canlynol:
Cafodd y llythyr a anfonwyd at LN ei ddosbarthu i bob CYSAG cyn y cyfarfod.
Roedd y llythyr yn cynnwys y cwestiynau canlynol:

- Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi a monitro'r ddarpariaeth o CGM mandadol?
- Pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â gofynion statudol Deddf cwricwlwm ac asesu Cymru mewn perthynas â CGM?
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon CGM presennol a darpar athrawon?
- Beth yw rôl CYSau yn y dyfodol?

Darllenodd EE yr ymateb gan LN. Dosbarthwyd yr ymateb llawn gyda phapurau'r agenda. Diolchodd LN i CCYSAGauC am ei chefnogaeth barhaus wrth helpu ysgolion i gyflwyno CGM. Cydnabu LN bwysigrwydd CCYSAGauC a CYSau wrth gefnogi ysgolion i fodloni gofynion deddfwriaethol.

Soniodd EE am bwysigrwydd cyfarfodydd rheolaidd CCYSAGauC gyda'r Pwyllgor Gwaith a chymaint mae'r Pwyllgor Gwaith yn gwerthfawrogi rolau CCYSAGauC a'r CYSAGau.

**8. Ymchwil a gefnogwyd gan CCYSAGauC - Prosiect Llais yr Athro: CGM yn y Cwricwlwm i Cymru**

TaS: Cafodd nodyn atgoffa am yr arolwg gyda dolenni a chodau QR ei gynnwys yn y papurau agenda. Mae Arolwg Llais yr Athro ar gyfer CGM yn cau mewn ychydig o dan dair wythnos. Mae wedi bod ar agor ers diwedd mis Ionawr, ac mae'n cau ar yr 22ain o Orffennaf ar ôl anfon sawl nodyn atgoffa yn y cam olaf i dderbyn cymaint o ymatebion â phosibl. Mae ar agor i bawb sy'n ymwneud ag addysgu ein CGM mewn o ysgolion neu leoliadau 3 i 16 - meithrin, uwchradd, arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.
Gofynnodd TAS i holl aelodau CYSAG hyrwyddo'r arolwg hwn gan ddefnyddio'r dolenni a'r codau QR. Gofynnir yn benodol am ymatebion gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

**9. Toriadau prifysgol**

Soniodd LJ, oherwydd y toriadau staff a chau ysgolion ym Mhrifysgolion Cymru, fod CCYSAGauC wedi ysgrifennu at Brifysgol Metropolitan Caerdydd i gyflwyno ei safbwynt a'i chefnogaeth a phwysleisio'r angen am arbenigedd CGM ar gyfer y TAR Addysg Grefyddol Uwchradd, y TAR Cynradd a'r BA mewn Addysg Gynradd. Bydd llythyr tebyg yn cael ei anfon at Brifysgol Caerdydd. Mae CCYSAGauC yn bwriadu parhau i weithio gyda LlC i ddod o hyd i atebion i fynd i'r afael ag effaith negyddol bosibl y penderfyniadau hyn ar ddysgwyr a'i lleihau.
Mae CCYSAGauC eisoes wedi cyfrannu at ddatblygu cynllun prosiect gyda Thîm Kevin Palmer.
Mae trafodaethau parhaus rhwng cydweithwyr CCYSAGauC a'r Llywodraeth i ystyried y biblinell i ysgolion uwchradd, gwella cynlluniau cymhelliant, gwella dysgu proffesiynol ar gyfer arbenigwyr, ymgyrchoedd a ffyrdd arloesol eraill o sicrhau bod gan bob dysgwr y mynediad gorau posibl at arbenigwyr mewn CGM.
Fel y soniwyd yn flaenorol, mae Adnodd sy'n gyfrifol am ddatblygu adnoddau dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr yng Nghymru wedi dweud bod y corff wedi nodi CGM fel maes blaenoriaeth a bod corff newydd, Medr, a fydd yn gyfrifol am ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

Roedd Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr hefyd yn bryderus a chynhaliodd gyfarfod (19 Mehefin 2025) o'i gyrff a'i aelod-sefydliadau sydd yng Nghymru neu sydd â buddiant yng Nghymru. Fel Ymgynghorydd Cymru i'r Cyngor Addysg Grefyddol, anogodd LJ, gynrychiolwyr cyrff aelodau'r Cyngor Addysg Grefyddol i gydnabod Cymru fel partner cyfartal a chynnig cefnogaeth mewn ffordd briodol a pharchus, gan gofio bod addysg yng Nghymru wedi'i datganoli, ni waeth pa mor debyg yw ein materion. Canlyniad y cyfarfod hwnnw, yn fyr, oedd y bydd y Cyngor Addysg Grefyddol yn ysgrifennu llythyr agored am effaith y toriadau hyn ar Addysg Grefyddol.

Gofynnodd LJ am unrhyw gwestiynau/sylwadau:

GJH: Fel caplan Cristnogol ym Mhrifysgol Abertawe, mae fy rôl mewn perygl o gael ei diswyddo ar hyn o bryd. Byddwch yn ymwybodol bod timau ffydd yn cael eu heffeithio, yn ogystal ag adrannau academaidd.
JD: Yn bryderus iawn gan mai dim ond ar addysg uwchradd y mae cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithio, ac yn amlwg mae addysg bellach yn rhan o'r naratif hwnnw.
RB: Yn bryderus iawn ac wedi cynnig cysylltu â Sam Rowland.
KR: Os nad oes athrawon newydd yn dod drwodd, bydd y pwnc yn dioddef yn fawr. Cynhaliodd y REC gyfarfod yn benodol am y pwnc hwn a'r effaith ar Gymru. Mae pryder hefyd, os byddwn yn recriwtio athrawon o Loegr i lenwi swyddi CGM, na fyddant wedi cael eu hyfforddi yn y cwricwlwm newydd nac yn meddu ar y sgiliau iaith.
Mae llythyr agored y REC at y gweinidog addysg i gael ei lofnodi gan bob parti sydd â diddordeb ac mae'n dangos bod pryder mawr yn gyffredinol.

Mae'n hanfodol bod CCYSAGauC yn cysylltu â'r Senedd, oherwydd er nad oes gan y Senedd oruchwyliaeth na rheolaeth dros y prifysgolion, mae'n rheoli bwrsariaethau a'r lefel o bwys maen nhw'n ei roi ar y pwnc.
Gallwn ofyn i aelodau'r Senedd drefnu dadl ddiwedd y dydd. Mae yna lawer o bethau y gallwn eu gwneud i ymgysylltu ag aelodau'r Senedd ar y grŵp trawsbleidiol ffydd ac yn ehangach. Hoffwn fod yn rhan o helpu gyda'r strategaeth ar gyfer ymgysylltu â'r Senedd.
PL: Awgrymwyd mewn unrhyw ohebiaeth fod gwaith sylweddol wedi'i wneud ar CGM a bod angen mwy o ysgogiad iddo weithio. Gallai'r ymdrech a'r egni i gyflwyno'r cwricwlwm newydd hwn gael eu dadwneud gan rymoedd allanol nad ydynt yn gysylltiedig â'r CGM, ond sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion neu benderfyniadau a wneir y tu allan i'r ysgol.

**GWEITHREDU:** Swyddogion Gweithredol CCYSAGauC i drafod a phenderfynu ar gynllun gweithredu ynghylch cysylltu â'r Aelod Senedd a'r Senedd ei hun.

**10. Cymwysterau**

*Cyfarfod ag Oliver Stacey (29-4-25)*

Rhoddodd RS y diweddariad canlynol:
Cyfarfu CCYSAGauC â chynrychiolwyr Cymwysterau Cymru (CC), Oliver Stacey a Laura Williams. Trafodwyd y pynciau canlynol:

1) Cymhwyster Agored Cymru – Archwilio Bydolygon sy'n rhedeg tan 2027.
Dywedodd CC fod ganddo broffil uchel a pha mor boblogaidd ydoedd. Ond mae cyfnod i gydnabod a yw'n addas neu a ydyw'n dyblygu cynnwys. Mae gan CC tan ddiwedd mis Medi i benderfynu a fydd y cymhwyster hwn yn parhau ar ôl 2027. Mae apêl wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru ynghyd â llythyrau cefnogaeth gan CCYSAGauC, PYCCGM ac ysgolion. Hysbysiad ddiwedd mis Medi. Cyfeiriodd CC at gymhwyster lefel mynediad Pearson, mae CC yn ystyried hwn fel cymhwyster posibl y gellid ei ddefnyddio ar gyfer ysgolion Catholig cyfrwng Saesneg, pe bai Pearson am wneud cais.
2) Rôl, a hawliau CCYSAGauC i weld y fanyleb ddrafft ar gyfer yr uned sgiliau.
Bydd nifer o fyrddau asesu yn edrych ar gymwysterau fel CBAC ac Agored Cymru ynghyd â rhanddeiliaid eraill fel CCYSAGAau yn siarad yn uniongyrchol â'r byrddau asesu. Mae CBAC ac Agored Cymru yn hysbysebu am bobl i eistedd ar y grwpiau llywio. Mae CCYSAGauC wedi'i ychwanegu at y cyfeiriadur o randdeiliaid sy'n cael ei rannu gyda'r byrddau asesu.
3) A oes arbenigwyr penodol i greu'r unedau hyn a faint o arbenigwyr pwnc sydd wedi bod ar y grŵp?
Soniodd CC fod rhai byrddau asesu eisoes wedi hysbysebu am fewnbwn i'r safonau newydd e.e. mae Agored Cymru yn chwilio am bobl i weithio gyda nhw. Mae rhai arbenigwyr pwnc ar gael, mae grŵp llywio ond nid arbenigwyr pwnc. Cadarnhaodd OS, oherwydd pwysigrwydd CGM, y bydd yr unedau'n cael sylw trylwyr, fel pwnc gorfodol hyd at 16.
Dywedodd CC fod ganddo dîm cymeradwyo yn gweithio gyda'r gyfres sgiliau. Mae pob uned i fod ar gael erbyn mis Medi 2026. Bydd rhai unedau'n cael eu cyhoeddi os ydynt yn barod cyn eraill. Cododd CCYSAGauC bryderon gan y gallai hyn gael effaith negyddol ar y sgiliau hynny sy'n cael eu rhyddhau yn ddiweddarach.
June Jenkins fydd yn arwain ar y cymwysterau.

Roedd yn gyfarfod buddiol i gael gwell dealltwriaeth. Cynhelir cyfarfodydd pellach wrth i'r cymwysterau hyn gael eu datblygu.

RB: Mae'r gyfres sgiliau yn hanfodol i ddyfodol CGM yng Nghyfnod Allweddol Pedwar, a yw'r math o strwythur ymgynghori yn galluogi mewnbwn arbenigol i'r broses honno?
RS: Mae CCYSAGauC yn rhan o'r cyfeiriadur hwn o bobl y gall y rhai sy'n datblygu'r cymhwyster droi atynt. Mae Cymwysterau Cymru wedi cydnabod bod angen edrych yn fanylach ar y bwriad i ddatblygu'r tair uned benodol hynny uwchlaw eraill. Mae'n anodd, gan nad oes neb wedi'i benodi i ysgrifennu'r cymwysterau hyn eto.
PL: Mae PL ar banel o arbenigwyr a fydd yn edrych drwy'r cynigion ac yn eu llywio. Ni fydd PL yn cynnig cefnogaeth i gyrff unigol oherwydd bydd hynny'n wrthdaro buddiannau, ond bydd yn gallu gweld beth sy'n cael ei gyflwyno a rhoi cyngor i Gymwysterau Cymru.
RS: Rhaid bod yn ymwybodol o ddau beth 1) Nid yw wedi'i gynllunio i gwmpasu pob gofyniad CGM a 2) Mae'n dibynnu ar bob ysgol unigol pa rai, os o gwbl, o'r setiau sgiliau maen nhw'n eu cynnig i'w dysgwyr. Mae hyn yn rhywbeth i ddweud wrth ymgynghorwyr ysgolion ac ALlau, bod angen gwthio i edrych ar werth y tair uned hynny, i annog eu dilyn.

**11. Cynhadledd EFTRE**

Cynhelir y gynhadledd bob tair blynedd ac mae yn Budapest eleni. Mae CCYSAGauC wedi gwahodd athrawon i wneud cais am fwrsariaeth i fynychu. Mae dau athro wedi gwneud cais ac wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais. Mae CCYSAGauC yn falch o allu noddi'r athrawon CGM. Bydd yr athrawon yn adrodd yn ôl i CCYSAGauC ar eu hymweliad.
Bydd PL, cynrychiolydd EFTRE, hefyd yn bresennol ac mae'n annog yr aelodau i ddarllen y rhaglen a gyhoeddwyd ar wefan EFTRE ac i ddarllen yr adroddiadau diddorol am y wlad.
Mae PL wedi awgrymu i CCYSAGauC ystyried Cymru fel lleoliad ar gyfer cynhadledd 2028. Mae EFTRE yn gweithio mewn partneriaeth â'r wlad sy'n cynnal y gynhadledd. Bydd gan y wlad sy'n cynnal y gynhadledd ganran uwch o gyflwynwyr ac mae EFTRE yn annog athrawon i gyflwyno. Awgrymwyd potensial ar gyfer prosiect Ewropeaidd yn edrych ar Cynefin ledled Ewrop. Bydd EFTRE yn cyfarfod fel bwrdd ar ddiwedd cynhadledd 2025.

EE: Soniodd y PL am hyn yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwaith ym mis Mai, a chodwyd cwestiynau. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn dychwelyd at y pwnc hwn yn y cyfarfod nesaf, ar ôl derbyn rhagor o wybodaeth ar ôl cynhadledd EFTRE.

**12.** *Adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14-5-25*
TaS: Mae'r rhan fwyaf o faterion yn cael eu trafod ar agenda heddiw.
Nodwyd bod yr ymateb i ddiwrnod y gynhadledd wedi bod yn gadarnhaol. Derbyniwyd nifer o geisiadau am seminarau ar-lein pellach, yn debyg i seminarau cyn ac ar ôl y gynhadledd a gynhaliwyd gan CCYSAGauC y llynedd.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn awyddus i ddilyn llwyddiant y gynhadledd yn y flwyddyn ysgol nesaf. Mae gweithgor bach wedi'i ffurfio i gynhyrchu rhai syniadau cychwynnol ar gyfer trafodaeth bellach, a fydd yn cael eu rhannu maes o law.

**13. Diweddariadau**

- **CBAC (Christopher Owens)**
  Nid oedd CO yn gallu bod yn bresennol ac anfonodd ddiweddariad ysgrifenedig byr a ddarllenwyd i'r aelodau gan RS. Y diweddariad fel a ganlyn:
  Mae'n gyfnod prysur iawn i'r bwrdd gyda thymor arholiadau, mae cyfres yr haf ar gyfer AS, Safon Uwch a TGAU yn digwydd. Mae arholiadau wedi'u sefyll ac mae'r marcio yn mynd rhagddo. Ar gyfer ceisiadau TGAU astudiaethau crefyddol, roedd gan bob uned geisiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yr unig grefydd nad oedd wedi'i ddewis, ac mae hyn wedi bod yn wir ers nifer o flynyddoedd, oedd Sikhiaeth. Ar gyfer tymor yr hydref, mae digwyddiadau dysgu proffesiynol wedi'u trefnu. Bydd yn ddysgu proffesiynol ar-lein, a bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar yr Asesiad Di-arholiad ar gyfer uned dau. Nid oes dyddiad wedi'i drefnu eto. Yr addysgu cyntaf ar y TGAU newydd fydd mis Medi 2025 gyda'r arholiad cyntaf ar yr Asesiad Di-arholiad uned dau a'r unedau papur arholiad yn haf 2026.

- **Cyngor Addysg Grefyddol (REC) (Kathy Riddick)**
  Rhoddodd KR y diweddariad canlynol:
  Fel y soniwyd yn flaenorol, mae REC yn ysgrifennu llythyr agored at y gweinidog addysg a byddant yn ei rannu gyda CCYSAGauC.
  Mae'r REC wedi bod yn brysur gyda'r adolygiad cwricwlwm yn Lloegr. Mae Sarah Lane Court, cadeirydd y Pwyllgor Addysg, wedi bod yn cyflwyno i'r Pwyllgor Addysg yn Lloegr am gyflwr problemau Addysg Grefyddol. Mae'r REC yn argymell fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ac yn aros i weld sut mae'r adolygiad cwricwlwm yn datblygu. Disgwylir y canlyniadau o hynny a'r penderfyniadau ynghylch sut maen nhw'n mynd i symud ymlaen â'r adolygiad cwricwlwm hwnnw yn yr hydref.
  Mae cyfarfod bwrdd y prynhawn yma,
- **PYCCGM (Phil Lord)**
  Rhoddodd PL y diweddariad canlynol:
  Gyda'r cylch naturiol o gadeiryddion yn symud ymlaen ac is-gadeiryddion yn cymryd y rôl newydd, rydw i wedi cymryd y rôl fel cadeirydd PYCCGM am y dyfodol rhagweladwy, mae Paula Webber wedi camu i lawr o'r rôl, ac mae DG wedi camu i rôl yr Is-gadeirydd.
  Yn ein cyfarfod diwethaf, trafodwyd llawer o'r materion a drafodwyd heddiw. Ysgrifennodd PYCCGM lythyr at Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd ynghylch y toriadau a'r cau ac fe'i hanfonwyd ar 9 Mehefin 2025. Mae PYCCGM wedi gofyn i'r brifysgol archwilio canlyniadau posibl yr hyn y gallai'r toriadau a'r

cau ei olygu, a oes ganddynt unrhyw bryderon, a beth fyddent yn ei wneud yn ei gylch? Nid oes ymateb wedi dod i law, felly bydd y llythyr yn cael ei ail-anfon yr wythnos nesaf.
Trafodwyd adroddiadau blynyddol a sut olwg fyddai ar adroddiad blynyddol da, gan aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru.
Mae PYCCGM wedi cynnig cefnogaeth i CBAC ynghylch ei sgyrsiau ar y gyfres sgiliau. Yn ymwybodol nad yw PYCCGM eisiau ffafrio rhai sefydliadau. Os oes sefydliadau eraill y mae pobl yn eu hadnabod a fydd yn ystyried cynnig am y gyfres sgiliau hynny, rhowch wybod i PL. Mae CBAC yn cyfarfod yr wythnos nesaf, ac mae PYCCGM wedi'i gynrychioli yn y cyfarfodydd hyn.

Mae PYCCGM yn ceisio cynhyrchu llythyrau cymorth gwerthfawr ar gyfer byd CGM trwy 'goffi CGM'. Mae cyfarfod ymhen pythefnos i edrych ar gynnydd mewn CGM gyda'r bwriad o ddarparu canllawiau a deunydd cymorth ar y pwnc hwn.

Llongyfarchodd EE PL a DG am ymgymryd â rôl cadeirydd ac is-gadeirydd yn y drefn honno, ac mae CCYSAGauC yn edrych ymlaen at barhau â'r berthynas rhwng PYCCGM a CCYSAGauC.

- **Estyn (Gwawr Meirion)**
  Dim diweddariad ar gael
- **Materion lleol / *ymholiadau***
  Ni dderbyniwyd unrhyw ymholiadau ar faterion lleol.

**14. Gohebiaeth**
- Mae'r holl ohebiaeth wedi cael ei thrin yn y cyfarfod hwn.

**15. Unrhyw fater arall (i'w gytuno cyn y cyfarfod gyda'r Cadeirydd)**
- Dim unrhyw fater arall.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf –** drwy zoom, a gynhelir gan Fro Morgannwg ar ddydd Mercher 19 Tachwedd 2025

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.

DRAFT